

Ymddiriedolaeth Gofalwyr Gogledd Cymru - Gwasanaethau Gofal Croesffordd

Arolwg Bodlonrwydd Blynyddol - Adroddiad cryno cyfunol (2024/25)

Ymatebodd cyfanswm o 89 o ofalwyr i'r arolwg, gan roi cipolwg gwerthfawr ar ansawdd ac effaith y gwasanaethau cymorth a ddarperir.

1. Sut ydych chi'n sgorio ein gwasanaethau?

Rhoddodd y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr sgôr o rhwng 9 a 10 allan o 10 i'r gwasanaeth, gan ei ddisgrifio yn ddibynadwy, dosturiol a phroffesiynol. Ni adroddwyd am unrhyw anfodlonrwydd mawr ar draws unrhyw ranbarth.

Enghreifftiau:

- 'Gwasanaeth ardderchog'
- 'Staff cymwynasgar iawn'
- 'Gofalwyr caredig, parchus a phroffesiynol'

2. Pa wahaniaeth ydym ni'n ei wneud i chi a'r person rydych chi'n gofalu amdano?

Adroddodd y gofalwyr effaith bositif sylweddol o'r gefnogaeth a dderbyniwyd, yn enwedig o ran y rhyddhad emosiynol a'r gallu i gynnal eu rolau gofalu yn effeithiol.

Enghreifftiau:

- 'Yn rhoi amser i mi orffwys'
- 'Yn ein helpu i gynnal ein trefn arferol'
- 'Mae'r cymorth yn gwneud pob gwahaniaeth'

3. Ydych chi neu'r person rydych chi'n gofalu amdano yn well eich byd oherwydd ein gwasanaeth?

Cytundeb unfrydol ledled y siroedd fod defnyddwyr gwasanaeth yn well eu byd, gyda phwyslais ar gymorth iechyd meddwl, tawelwch meddwl a chymorth ymarferol.

Enghreifftiau:

- 'Lles emosiynol gwell'
- 'Yn teimlo'n gefnogedig ac yn llai unig'
- 'Ansawdd bywyd llawer gwell'

4. Pa effaith fyddai diffyg y gwasanaeth arnoch chi?

Dywedodd y rhan fwyaf y byddai diffyg y gwasanaeth yn cael effaith negyddol ddifrifol, gan gynnwys mwy o straen ac anallu i ymdopi.

Enghreifftiau:

- 'Ni fyddai'n ymdopi hebddo'
- 'Byddwn wedi llosgi allan yn llwyr'
- 'Byddai'n llethol'

5. Awgrymiadau ar gyfer gwella

Dywedodd y rhan fwyaf nad oedd angen unrhyw welliannau. Awgrymodd rhai hyblygrwydd gwell, parhad staff, ac ymweliadau penwythnos neu oriau estynedig.

Enghreifftiau:

- 'Oriau mwy hyblyg'
- 'Staff mwy cyson'
- 'Ymweliadau ar benwythnosau'

6. Sylwadau pellach

Canmolwyd y staff, dibynadwyedd y sefydliad, a gwerth cyffredinol y gwasanaeth dro ar ôl tro. Mynegodd llawer ddiolchgarwch o'r galon.

Enghreifftiau:

- 'Gwasanaeth hollol wych'
- 'Yn mynd gam ymhellach'
- 'Ni allwn wneud hyn heb eu cymorth'

7. Pa wasanaethau eraill fyddai'n ddefnyddiol?

Nodwyd bod galw am fwy o grwpiau cymorth cyfoedion, gweithgareddau lles emosiynol, a chynghor ar fudd-daliadau neu gynllunio gofal.



Enghreifftiau:

- 'Gwybodaeth ac arweiniad'
- 'Grwpiau cymorth neu foreau coffi'
- 'Cymorth gyda chynllunio a gwyliu seibiant'


Casgliad

Ar draws pob sir, mae'r adborth yn dangos lefel gyson uchel o foddhad gyda'r gwasanaethau a ddarperir gan Wasanaethau Gofal Croesffordd - Ymddiriedolaeth Gofalwyr Gogledd Cymru. Ystyrir bod y sefydliad yn hanfodol i gefnogi gofalwyr i gynnal eu lles eu hunain wrth barhau â'u rolau gofalu hynod bwysig. Er bod y rhan fwyaf o ofalwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n llawn, mae cyfle o hyd i ehangu mynediad at adnoddau cymorth emosiynol a lles gofalwyr ychwanegol.


Arolwg Bodlonrwydd Cwsmeriaid 2024–2025




3. Ydych chi neu'r person rydych chi'n gofalu amdano yn well eich byd oherwydd ein gwasanaeth?




4. Pa effaith fyddai diffyg y gwasanaeth arnoch chi?



5. Awgrymiadau ar gyfer gwella



6. Sylwadau pellach.



7. Pa wasanaethau eraill fyddai'n ddefnyddiol?

